

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Gwasanaeth Addysg, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ

Dyma hysbysiad yn unol ag Adran 41 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Cyngor RhCT), ac yntau wedi ymgynghori â'r bobl hynny yr oedd yn ofynnol iddo ymgynghori â nhw, yn cynnig:

1. Cau'r ysgolion canlynol sy'n cael eu cynnal gan Gyngor RhCT ar hyn o bryd:

- Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Lôn yr Ysgol, y Ddraenen Wen, Pontypridd, RhCT, CF37 5AL
- Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, Lôn yr Ysgol, y Ddraenen Wen, Pontypridd, RhCT, CF37 5AL

2. Sefydlu Ysgol Gymuned Cyfrwng Saesneg Pob Oed newydd, i'w chynnal gan Gyngor RhCT yn Lôn yr Ysgol, y Ddraenen Wen, ar safleoedd Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, ar gyfer bechgyn a merched 3-16 oed.

Cynhaliodd Cyngor RhCT gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig, a barn Estyn ar gael ar wefan y Cyngor

<http://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/Schoolconsultations.aspx>.

Y bwriad yw gweithredu'r cynigion yma ar 1 Medi 2022.

Cyngor RhCT fydd yr awdurdod derbyn ar gyfer yr Ysgol Gymuned Pob Oed newydd, a fydd dim trefniadau ar gyfer bandio disgyblion.

Y bwriad yw y dylai disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol uchod ar hyn o bryd drosglwyddo i Ysgol Pob Oed newydd y Ddraenen Wen ar 1 Medi 2022, gan ddibynnu ar ddewis rhieni. Hefyd, y bwriad yw y dylai disgyblion sydd yn ffrwd Saesneg Ysgol Gynradd Heol y Celyn ar hyn o bryd drosglwyddo i Ysgol Pob Oed newydd y Ddraenen Wen ar 1 Medi 2022, gan ddibynnu ar ddewis rhieni.

Y bwriad yw y bydd yr ysgol yma yn Ysgol Gymuned Cyfrwng Saesneg Pob Oed (3-16 oed) gyda chyfanswm arfaethedig o 1,260 o ddisgyblion. Bydd gwaith addasu'r adeilad neu addasiadau eraill yn cael eu cynnal cyn y dyddiad yma i sicrhau bod yr adeilad yn addas ar gyfer y disgyblion o'r ystod oedran sydd wedi'i nodi.

Bydd capasiti arfaethedig o 540 o ddisgyblion yn Adran Gynradd yr ysgol Pob Oed newydd, gan gynnwys meithrinfa. 67 fydd y nifer derbyn ar gyfer plant 4 oed i'r Dosbarth Derbyn. Y capasiti arfaethedig ar gyfer yr Adran Uwchradd fydd 720 o ddisgyblion, a 77 fydd y nifer derbyn ar gyfer disgyblion 11 oed (Blwyddyn 7), sy'n golygu y bydd lle i 144 o ddisgyblion ar gyfer pob grŵp blwyddyn yn yr adran uwchradd.

Bydd cludiant ar gael i'r disgyblion yn unol â Pholisi Cludiant yr Awdurdod. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol gynradd, yr ysgol babanod neu'r ysgol iau berthnasol, os ydyn nhw'n byw y tu hwnt i 1½ o filltiroedd cerdded o'r ysgol yna, a 2 filltir yn achos disgyblion ysgolion uwchradd. Ysgol y dalgylch, neu'r ysgol fwyaf addas agosaf, ydy'r 'ysgol berthnasol'.

Caiff pwy bynnag a fynno gyflwyno gwrthwynebiad i'r bwriad yma cyn pen 28 o ddiwrnodau o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig yma, sef Mai 31st 2019.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ. E-bost: CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk.

Bydd Cyngor RhCT yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (ac sydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Gaynor Davies

Llofnod:

Gaynor Davies

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Dyddiad: Ebrill 30th 2019

Nodyn esboniadol ar y cynigion

Mae Cyngor RhCT wedi cynnal proses ymgynghori gynhwysfawr yn ddiweddar mewn perthynas â chynlluniau arfaethedig i aildrefnu darpariaeth ysgolion yn ardal Pontypridd yn rhan o'i gynigion o dan Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Mae Cabinet Cyngor RhCT wedi cytuno i gyhoeddi'r hysbysiadau statudol canlynol:

- Newid yr ystod oedran o ddisgyblion y mae modd eu derbyn i Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain, o 11-19 oed i 11-16 oed, gan arwain at ddileu'r ddarpariaeth chweched dosbarth;
- Cau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd a chreu ysgol Pob Oed 3-16 newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd. Fydd dim darpariaeth chweched dosbarth yn yr ysgol yma;
- Cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen a chreu ysgol Pob Oed 3-16 newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, gyda dosbarth arbenigol ADY dynodedig yr Awdurdod Lleol wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, yn ogystal â disgyblion sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Saesneg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd. Fydd dim darpariaeth chweched dosbarth yn yr ysgol yma;
- Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn ac agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn.

Bydd y dosbarth ADY (CA3) sydd eisoes ar waith yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen yn trosglwyddo i'r Ysgol Pob Oed 3-16 newydd yn y Ddraenen Wen.

Cyn mis Medi 2022, bydd y Cyngor yn sicrhau bod disgyblion Blwyddyn 12, a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y newid, yn ymgymryd â Rhaglenni Astudio a fydd yn parhau yn y chweched dosbarth newydd, a hynny er mwyn tarfu ar ddisgyblion cyn lleied â phosibl.

At ddibenion darpariaeth addysg gynradd (3-11), o fis Medi 2022, dalgylch yr ysgol Pob Oed newydd yn y Ddraenen Wen fydd dalgylchoedd presennol Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn (ffrwd cyfrwng Saesneg).

At ddibenion darpariaeth addysg uwchradd (11-16), o fis Medi 2022, bydd ardal Y Graig ym Mhontypridd sydd ar hyn o bryd yn nalgylch Ysgol Gynradd Maes-y-coed ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen yn cael ei hychwanegu at ddalgylch yr ysgol 3-16 newydd ar safle ysgol Pob Oed Pontypridd. Roedd y newid yma yn rhan o'r ymgynghoriad.

At ddibenion darpariaeth addysg uwchradd (11-16), o fis Medi 2022, bydd dalgylch ardal Ysgol Gynradd Coedpenmaen sydd ar hyn o bryd yn nalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen yn cael ei hychwanegu at ddalgylch yr ysgol 3-16 newydd ar safle ysgol Pob Oed Pontypridd. Roedd y newid yma yn rhan o'r ymgynghoriad.

At ddibenion gweithredu meini prawf derbyn disgyblion, bydd cais unrhyw blentyn sy'n byw yn nalgylch presennol y Ddraenen Wen, ac sydd â brawd neu chwaer hŷn sy'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ym mis Gorffennaf cyn agor yr ysgol newydd, h.y. ym mis Medi 2022, yn cael ei ystyried fel petai'n byw yn nalgylch y Ddraenen Wen o hyd. Bydd y mecanwaith diogelu yma'n parhau nes bod yr holl frodyr a chworydd hŷn wedi gadael yr ysgol, ac eithrio unrhyw frodyr a chworydd ym Mlynnydoedd 12 a 13 ym mis Gorffennaf 2022.

Byddai dalgylchoedd Ysgolion Uwchradd Pontypridd a'r Ddraenen Wen ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn cael eu diwygio, i roi'r ardaloedd yma yn nalgylch chweched dosbarth Ysgol Gyfun Bryncelynnog, y Beddau. Byddai cyfleusterau ôl-16 Bryncelynnog yn cael eu gwella a'u huwchraddio. Roedd y newid hwn yn rhan o'r ymgynghoriad. Bydd modd i ddisgyblion fynd i Goleg y Cymoedd neu ganolfan arall i ddisgyblion y chweched dosbarth o'u dewis. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu am ddim i Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Coleg y Cymoedd neu'r ganolfan agosaf sy'n cynnig y pynciau maen nhw'n eu dewis yn unig, os ydyn nhw'n byw'n bellach na 2 filltir o'r ddarpariaeth yma.